S4C

Delyth Jewell AS
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
CF99 1SN
Senedd.Diwylliant@senedd.cymru

30 Hydref 2023

---

**Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru: Cais am wybodaeth ychwanegol**

---

Annwyl Gadeirydd,

Hoffem ddiolch i chi am y cyfle i gynnig tystiolaeth ar ddydd Mercher, 4 Hydref 2023, ac am ddiddordeb a chefnogaeth barhaus y Pwyllgor i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Yn dilyn eich cais am wybodaeth ychwanegol, rydym yn amlinellu manylion pellach ynglŷn â gwariant S4C ar gynnwys yn ystod 2022-23.

Ers ei lansio yn 1982, mae S4C wedi cydnabod bod ganddi gyfrifoldeb a swyddogaeth bwysig i gyfrannu at ddyfodol iaith, diwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Rydym yn falch iawn o'r rhan rydym wedi ei chwarae yn llwyddiant y diwydiannau creadigol yng Nghymru ac o'r gadwyn gref o gwmnïau cynhyrchu annibynnol sydd wedi eu sefydlu yma.

Mae'n bwysig bod cyfraniad economaidd S4C yn cael ei deimlo ym mhob cwr o Gymru. Mae amcan gan S4C i wario dros 95% o'i chyllideb gynnwys gyda chynhyrchwyr sydd wedi eu lleoli yng Nghymru a, dros y blynyddoedd nesaf, ein bod ni'n sicrhau dosraniad mwy cyfartal o wariant ar gynnwys ar draws Cymru.

Rydym yn adrodd yn flynyddol ar ein gwariant ar gynnwys ac yn nodi dosraniad y gwariant hynny ar sail lleoliadau swyddfeydd y cwmnïau cynhyrchu sydd yn creu ein rhaglenni yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C.

Yn ystod 2022-23, nodir bod y gwariant y tu allan i Gymru yn 2% ac mae'r ffigwr hynny wedi ei dalgrynnu i fyny o 1.6%. Nodir hefyd yn yr adroddiad blynyddol mai'r ffigwr cyfatebol ar gyfer 2021-22 oedd 1%; roedd hynny wedi'i dalgrynnu i lawr o 1.48%.

Mae'r cynnydd o 0.1 yn y ganran o'r gyllideb gynnwys sydd wedi'i gwario y tu allan i Gymru o ganlyniad i raglenni chwaraeon ychwanegol a oedd yn cael eu darparu gan gwmni cynhyrchu â'i gynhyrchwyr a'i waith ffilmio wedi eu lleoli yng Nghymru, ond ei bencadlys yn Llundain.

O flwyddyn i flwyddyn, mi all y dosraniad o wariant ar gynnwys amrywio o ganlyniad i ystod comisiynau S4C. Er hynny, oherwydd bod S4C yn gweithio â chynhyrchwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, prin yw'r achosion lle byddwn yn gwario ar gynnwys y tu allan i Gymru. Fel arfer, bydd gwariant ar gynnwys y tu allan i Gymru o ganlyniad i leoliad pencadlys rhai cwmnïau cynhyrchu annibynnol, ambell i gyd-gynhyrchiad neu bryniant fformat.

Yr eiddoch yn gywir,



**Elin Morris**
**Prif Swyddog Gweithredol S4C**



**Rhodri Williams**
**Cadeirydd S4C**

Sianel Pedwar Cymru
Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin Carmarthen, Cymru Wales, SA31 3EQ Ffôn Phone 03305 880 402 s4c@s4c.cymru
s4c.cymru